# NEGES Y DDRAIG

## CYLCHLYTHYR CPC CYMRU
## Rhifyn 8 HAF 2023

# Digwyddiadau

Gŵyl Elvis Porthcawl
Bydd selogion Elvis yn dychwelyd i dref glan môr Porthcawl fis Medi eleni ar gyfer dathliad unigryw o'r Brenin.

22 – 24 Medi 2023






Gwefan Llywodraeth Cymru:

Llawer o wybodaeth am gwyliau a digwyddiadau HYGYRCH yng Nghymru.

**https:/ /tfw.wales/info-for/passengers/accessible-**

CYSYLLTIADAU I BAWB
Ymgyrch Cynhwysiant / Gwaharddiad Digidol

CONNECTIONS FOR ALL
Digital Inclusion / Exclusion Campaign

**Rydym eisiau cymorth i bobl hŷn sydd am ddefnyddio technolegau digidol. Rydym ni'n ymgyrchu i gael Llywodraeth, Iechyd, Llywodraeth Leol, Banciau, Bysiau, Trenau a gwasanaethau eraill i sicrhau nad yw pobl sydd ddim am wneud hynny neu sy'n methu gwneud hynny dan anfantais nac yn wynebu gwahaniaethu.**

***Dywed Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod Allgau Digidol yn creu rhwystrau newydd i bobl hŷn.***

Yn 2021, cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Helena Herklots, ganllawiau statudol yn disgrifio'r mathau o gamau y dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu cymryd i sicrhau bod hawliau pobl i gael at wybodaeth a gwasanaethau trwy ddulliau heblaw dulliau digidol yn cael eu cynnal.

Dywedodd y Comisiynydd:
"I ddeall y problemau penodol mae pobl yn eu hwynebu yn well, ac effaith y rhain ar fywyd pobl, rwy'n awyddus i bobl hŷn sydd ddim ar-lein neu sy'n cael trafferth defnyddio technoleg ddigidol gysylltu â fy swyddfa i amlygu unrhyw anawsterau neu rwystrau a gawsant."

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Allgau Digidol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Mae CPC Cymru am i'n haelodau roi gwybod i'r Comisiynydd am eu profiadau.**

Gall pobl hŷn (neu eu teulu a'u ffrindiau) gysylltu â swyddfa'r Comisiynydd i rannu eu profiadau tan 1 Medi

Cysylltwch dros y ffôn 03422 640 670, drwy'r e-bost ask@olderpeople.wales neu ysgrifennwch at:
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CFl0 SFL

## Swyddfeydd Tocynnau Trên Trafnidiaeth Gyhoeddus




Mae CPC Cymru yn cefnogi ymgyrch yr RMT yn erbyn y bwriad i gau mwyafrif y swyddfeydd tocynnau (1,000 ohonynt) yn Lloegr.

Ysgrifennodd CPC Cymru at Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys Trafnidiaeth Gyhoeddus. Mae Trafnidiaeth Cymru yn rheoli pob un o'r 223 o orsafoedd trenau yng Nghymru.

Gobeithio nad oes cynlluniau i gau ein swyddfeydd tocynnau yng Nghymru.

Cawsom ymateb cadarnhaol:
"Rwy'n deall eich pryderon a'ch rhwystredigaeth am gau swyddfeydd tocynnau yn Lloegr. Nid yw Trafnidiaeth Cymru'n rhan o'r cyhoeddiad hwn, ac nid oes ganddynt gynlluniau i gau swyddfeydd tocynnau yn eu gorsafoedd yng Nghymru na'r rhai maen nhw'n eu rhedeg yn Lloegr."

# Bysiau yng Nghymru

Ym mis Mai, gwnaeth Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, ddatganiad llafar yn y Senedd yn cadarnhau bod cyllid wedi'i ganfod i ddal ati i redeg y rhan fwyaf o wasanaethau bws yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n cynnwys: Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru

Nod y Bil Bysiau yw diwygio a gwella gwasanaethau bws, gan roi pobl cyn elw, i gyfateb i anghenion ein cymunedau.
Bydd y ddeddf newydd hon yn rhoi adnoddau gwell i awdurdodau lleol gynllunio a chyflwyno gwasanaethau bws.
**Bydd CPC Cymru yn gwylio gyda diddordeb!**

## Y GIG a'r Gwasanaeth Gofal yng Nghymru

GIG CYMRU NHS WALES

Dywedodd y Prif Weinidog y byddai Deddfwriaeth i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus.
**Ond yr hyn sydd ar goll yw Adroddiad Grŵp Arbenigol Tachwedd 2022: Sefydlu gwasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol i Gymru.**
***Bydd CPC Cymru yn gofyn y cwestiwn – beth sy'n digwydd am yr adroddiad hwnnw?***

**Dweud eich Dweud:**
**Os oes gennych stori yr hoffech ei rhannu neu unrhyw sylwadau am ein cylchlythyr, cysylltwch â ni:**

E bost **info@npcwales.org**

Drwy'r post: CPC Cymru
d/o Age Cymru
Ground Floor, Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd, CF24 STD

***Beth am ymuno â Chonfensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, sef CPC Cymru?***

Sefydliad gwirfoddol ydym ni. Rydym ni'n sefydliad ymgyrchu amhleidiol sy'n ceisio gwella safonau byw a lles pob pensiynwr a darpar bensiynwr yng Nghymru.

Mae ein Cyngor llawn yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn, fel arfer.

Mae ein Swyddogion ac Aelodau Pwyllgor gwirfoddol, etholedig, yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae ein hymgyrchoedd allweddol presennol ar gyfer:

- **Adferiad y GIG yng Nghymru**

a datblygu gwasanaeth Gofal Cymdeithasol cwbl integredig, yn rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, yn brif flaenoriaeth.

- **Yr Argyfwng Costau Byw**
- **Ynni i Bawb – Dwedwch NA i ddewis rhwng Gwres neu Fwyd**
- **Mae Cartrefi Oer yn Lladd – Insiwleiddiwch ein cartrefi NAWR!**

- **Cysylltiadau Digidol i Bawb**

Credwn hefyd fod rhaid cynnal mathau traddodiadol o gyfathrebu a gwasanaethau, fel wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy'r post ac yn defnyddio arian parod.

- **Cludiant Cyhoeddus**

Bysiau a Bil Bysiau Cymru? Mae'n argyfwng ar wasanaethau bws. Mae gwasanaethau mewn perygl ar hyd a lled Cymru.

- **Gofal a Thrwsio Tai** Mae 13 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, bob un ohonynt yn gofalu am ranbarth gwahanol. Rydym am i lawer mwy o addasiadau gael eu cyflawni.

**Os ydych chi'n aelod o sefydliad, gall eich sefydliad lunio cysylltiad â CPC Cymru. Cysylltwch â:**

Drwy'r e-bost **affiliation@npcwales.org**

Neu drwy'r post ar:
CPC Cymru
d/o Age Cymru
Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd
CF24 STD

**Gallwch ymuno â CPC Cymru fel aelod unigol.**

Os byddwch yn ymuno â ni, gallwch ddod i'n cyfarfodydd, pleidleisio a derbyn ein cylchlythyron.

**Hoffwn ymuno â CPC Cymru fel aelod unigol**
E-bostiwch **affiliation@npcwales.org neu anfonwch drwy'r post** i'r cyfeiriad isod.

Eich Enw Llawn

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn cartref
Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

Talu ffioedd cysylltu: £10:00 y flwyddyn

I dalu trwy BACS : Talwch:
Lloyds Bank, NPC Wales No.2 Account
Cod Didoli 309995 Rhif y Cyfrif 01236708
Os byddwch chi'n talu trwy BACS, sicrhewch eich bod yn rhoi cyfeirnod sy'n cynnwys eich enw.
Neu talwch drwy siec yn daladwy i NPC Wales a'i hanfon i:
CPC Cymru, d /o Age Cymru, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 STD

Cefnogir gan

Hyrwyddwyd a Chyhoeddwyd gan CPC Cymru,

Argraffwyd gan Age Cymru, oll d/o

Ground Floor Mariners House, Trident Court,

East Moors Road, Caerdydd, CF24 STD

# DRAGON SPEECH

## THE NEWSLETTER OF NPC WALES

## Issue 8 SUMMER 2023



**Porthcawl Elvis Fest**
Elvis fans will return to the seaside town of Porthcawl this September for a unique celebration of The King.
22nd – 24th September 2023

# Events




Welsh Government website
lots of information on ACCESSIBLE Holidays and events in Wales.

Transport for Wales ASSISTED Travel Support.

**https:/ /tfw.wales/info-for/passengers/accessible-**

CYSYLLTIADAU I BAWB
Ymgyrch Cynhwysiant / Gwaharddiad Digidol

CONNECTIONS FOR ALL
Digital Inclusion / Exclusion Campaign

**We want support for older people who want to use digital technologies. We campaign to get Government, Health, Local Government, Banks, Buses, Trains, and other services to ensure that those who do not wish to do so or cannot do so are not disadvantaged or discriminated against.**

***The Older People's Commissioner for Wales says that Digital exclusion is creating new barriers for older people.***

Older People's Commissioner for Wales, Helena Herklots CBE issued statutory guidance in 2021 which set out the kinds of action local authorities and health boards should be taking to ensure that people's rights to access information and services via non-digital means are upheld.

The Commissioner has said:
"To better understand the particular issues people are facing, and the impact these are having on people's lives, I'm keen for older people who are not online or who struggle using digital technology to contact my office to highlight any difficulties and barriers they have faced."

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Digital Exclusion - Older People's Commissioner for Wales

**NPC Wales wants our members to let the Commissioner know of their experiences.**

Older people (or their family and friends) can contact the Commissioner's office to share their experiences until 1 September

By telephone on 03422 640 670, email ask@olderpeople.wales or write to:
Older People's Commissioner for Wales
Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff, CFI0 SFL




## Public Transport Railway Ticket Offices

NPC Wales is supporting the RMT campaign against the proposed closure of the majority of ticket offices (1,000 of them) in England.

NPC Wales wrote to Lee Waters MS the Deputy Minister for Climate change whose responsibilities include Public Transport. Trafnidiaeth Cymru/Transport for Wales manages all 223 Railway stations in Wales.

- We hope that there are no plans to close our ticket offices in Wales.

We got a positive reply:
"I understand your concerns and frustration regarding the closure of ticket offices in England. Transport for Wales (TfW) are not part of this announcement, and they have **no plans to close ticket offices at their stations in Wales or those they operate in England."**

# Buses in Wales




In May Lee Waters MS Deputy Minister for Climate Change made an oral statement, in the Senedd, confirming that funding had been found to keep most bus services running in Wales for this financial year.

In June the First Minister, Mark Drakeford announced Welsh Government's legislative programme for the next year. It includes:
One network, one timetable, one ticket: planning buses as a public service for Wales

The Bus Bill is meant to reform and improve bus services, putting people before profit, to match what our communities need.
This new law will give local authorities better tools to plan and deliver bus services.
**NPC Wales will be watching with interest!**

## The NHS and Care Service in Wales

The First Minister said there would be Legislation to introduce direct payments for continuing health care.
**But what is missing is the November 2022 Expert Group Report: Establishing a national care and support service for Wales.** ***NPC Wales will be asking the question - what is happening about that report ?***

**Your Shout:**
**If you have a story you would like to share or have any comments on our newsletter please contact us:**

E mail **info@npcwales.org**

By Post: NPC Wales
c/o Age Cymru
Ground Floor, Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Cardiff, CF24 STD

***Why not Join National Pensioners Convention Wales/ Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru known as NPC Wales?***

We are a voluntary organisation. We are a non-party political campaigning organisation that seeks to improve the living standards and welfare of all pensioners and future pensioners in Wales.

Our Full Council meets, normally, 4 times a year.

Our elected volunteer Officers and Committee Members meet regularly with Welsh Government and the Older People's Commissioner for Wales.

Our current key campaigns are for:

- **The recovery of the NHS in Wales**

and the development of a fully integrated Social Care service, free at the point of need, as its first priority.

- **The Cost-of-Living Crisis.**
- **Energy For All - Say NO to Heat or Eat**
- **Cold Homes Kill - Insulate our homes NOW!**

- **Digital Connections for All**

We also believe that traditional forms of communication and services such as face to face, over the telephone, via post and using cash must remain in place.

- **Public Transport**

Buses and the Welsh Bus Bill ? Bus services are in deep crisis. Routes are at-risk all-over Wales.

- **Housing Care and Repair** There are 13 Care & Repair Agencies in Wales, each covering a different region. We want far more adaptations to be carried out.

**If you are a member of an organisation your organisation can affiliate to NPC Wales please contact:**

E-Mail **affiliation@npcwales.org**

Or by post to:
NPC Wales
c/o Age Cymru
Mariners House
Trident Court
East Moors Road
Cardiff
CF24 STD

**You can join NPC Wales as an individual member.**

If you do you can attend our meetings, vote and receive our newsletters.

**I wish to join NPC Wales as an individual member**
E-Mail **affiliation@npcwales.org or send by post** to the address below.

Your Full Name

Address

Post Code

Home Telephone
Mobile Number

E mail address

Payment of affiliation fees: £10:00 per year

To Pay by BACS : Please pay to:
Lloyds Bank, NPC Wales No.2 Account
Sort Code 309995 Account Number 01236708
If paying via BACS please ensure that you include a reference identifying your name.
Or pay by cheque payable to NPC Wales and return to:
NPC Wales, c /o Age Cymru, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Cardiff CF24 STD

Supported by Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government · Unite the Union · Unite Retired members · age Cymru

Promoted and Published by NPC Wales, printed by Age Cymru, all c/o Ground Floor Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Cardiff, CF24 STD